**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**6/12/22**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Beryl Hughes Griffiths (Cadeirydd), Euros Roberts (Is-gadeirydd), Huw Antur, Dewi Wyn Jones, Heledd Jones, Alwyn M Roberts, Huw P Roberts

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** Owain Sion (Sylfeini)

**Cynefin:** Catrin V Roberts, Gwyndaf ac Arwyn

**2424** **Croesawyd** pawb gan y Cadeirydd, ac estynnodd groeso arbennig i gynrychiolwyr Cynefin a Sylfeini.

**2425** **Cyflwyniad** Trafodwyd y ffordd ymlaen gyda'r plotiau ym Maesypandy . Dywedwyd fod Cynefin wedi gweithio gyda Cyngor Gwynedd a Parc Cenedlaethol Eryri; mae'r amod 106 yn parhau, fe y mae'r angen i unrhyw anheddau fod yn fforddiadwy. Nid ydyw Cyngor Gwynedd mewn sefyllfa i brynu, a dim ond unedau i'w rhentu sydd o fewn gallu Cynefin.

**Angen lleol:** Yn y cyfarfod a gynhaliwyd yn lleol, mynegodd 3 ddiddordeb mewn rhanberchenogaeth – ac fe'u cyfeiriwyd at y cymorth i brynu sydd yn cael ei ddarparu gan Gyngor Gwynedd erbyn hyn.

**Y cynllun:** Dywedodd Gwyndaf fod angen ail edrych ar y math o gartrefi a'r dyluniadau. Wedyn byddai angen gwneud cais cynllunio a cheisio am grant gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Parc yn edrych ar eu Cynllun Datblygu Lleol ar hyn o bryd, ac mae Cynefin yn bryderus o golli'r hawl ar y tir.

**Eglurwyd** y gwahaniaeth rhwng **Tai Teg** (*rhent canolraddol, rhai bod ar gofrestr; asesiad incwm rhwng 16K – 45K; rhent yn 80% llai na chyfartaledd rhent preifat; cysylltiad lleol yn ffactor; y cyntaf i'r felin ....angen i bobl gofrestr gyda Tai Teg*) a **Thai Cymdeithasol** (*gosod ar feini prawf gwahanol; bandiau yn cynnwys cysylltiad lleol; rhent is ac yn aml yn cael ei dalu trwy'r drefn budd-dal*).

**Maint y datblygiad arfaethedig:** trafodwyd effaith andwyol posib ar y gymuned a'r ysgol pe byddai 8 annedd yn cael eu codi gyda'i gilydd. Dywedwyd y gellid rhoi ystyriaeth i ddatblygu mewn mwy nag un gwedd ond y byddai'n fwy economaidd i wneud un prosiect.

**Amserlen:** byddai'r broses yn cymryd tua 2 flynedd.

Wrth ddiolch i Cynefin, dywedodd y Cadeirydd fod pryder gyda chartrefi cymdeithasol oherwydd profiadau gofidus yn y gorffennol. Dymuniad y Cyngor yw camu'n araf a gweld beth sy'n bosibl. Addawodd Cynefin y byddant yn gallu dod yn ôl i drafod ymhellach, a dywedwyd mai'r peth pwysig yw i bobl leol gofrestru mewn da bryd gyda Tai Teg.

Cytunodd yr aelodau i drafod y mater eto yn y cyfarfod nesaf yng ngoleuni'r wybodaeth a gafwyd.

**2426** **Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau Llinos Edwards, Alwyn E Jones, Rhodri Jones ac Arwel Lloyd Jones.

**2427** **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.

**2428** **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb cyfarfod 1/11/22.

**2429** **Materion y Clerc**

1. Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth : daeth ymateb i'r cais am data damweiniau ar yr A494 ac fe'i rhannwyd gyda Chyngor Cymuned Llandderfel.
2. Cyfarfod gyda Swyddogion yr Eglwys yng Nghymru: trefnwyd ar gyfer 10.30am fore gwener 9/12/22
3. Llwybr diogel i'r ysgol: anfonwyd lythyr o gefnogaeth i'r cais at Gyngor Gwynedd.
4. Ambiwlans Awyr Cymru: anfonwyd lythyr o gefnogaeth i'r cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ym Mhwllheli yn yr ymdrech i gadw'r gwasanaeth yn y canolbarth.

**2430** **Cyngor Gwynedd**

Adroddodd y Cynghorydd y derbyniodd gais am ymweliad safle er mwyn symud y polyn lamp wrth Ceniarth er mwyn gwneud hi'n haws i gael mynediad i gae'r sioe.

Fe fydd yn holi eto am olau ar y cerfluniau yn y Gilfach Goffa.

Derbyniodd 3 llythyr o gefnogaeth i'r cais am Lwybr Diogel i'r ysgol hyd yn hyn.

Pafin o flaen Llwyn Onn wedi treulio'n arw ac yn gyrru cerddwyr i'r ffordd. Eiddo preifat yw ond mae posibilrwydd y bydd Cyngor Gwynedd yn gallu bod o gymorth. Bydd ystyriaeth hefyd yn cae ei roi i system un ffordd i drafnidiaeth yn Heol yr Eglwys. Gan y bydd 20mya yn gyffredin yn fuan iawn trwy ardaloedd gyd goleuadau stryd, fe fydd yr arwyddion digidol wrth bont y Llan yn cael eu tynnu pan ddaw'r ddeddf i rym.

Cwlfert wrth fynediad Ysgol O M Edwards: mae wedi ei wagio fel ateb byr-dymor, a bydd ymchwiliad i'r lefelau draeniau yn digwydd maes o law.

Trofa Weirglodd Wen: eiddo Cyngor Gwynedd yw'r goeden, sydd angen ychydig o waith tocio; bydd symud ymlaen wedyn i uwchraddio'r safle ail-gylchu.

Bu'r lori ysgubo yn y pentref ond ni fu'n bosib gwneud Ty'n Ddôl oherwydd cerbydau heb eu symud.

Ardal lloches bws Ty'n Ddôl : bydd angen talu am gyngor cynllunio cyn gwneud cais ar gyfer newidiadau. Mae'n gwestiwn pwy fyddai'n datblygu'r tir. Ar hyn o bryd nid oes sicrwydd am berchnogaeth y tir dan sylw. Cytunodd Alwyn M Roberts i ymchwilio a ydyw wedi ei gofrestru (ar gost y Cyngor Cymuned); fe fyddai unrhyw broses o gofrestru yn cymryd tua blwyddyn.

Mae problemau gyda gwagio biniau ffordd Bryncaled ac addawodd y Cynghorydd Alan Jones Evans wneud ymholiadau.

**2431** **Ardal Ni** Ymateb i Gofnod cyfarfod Hydref yn y Bala – bydd y grŵp datblygu yn ymateb i hwn.

**2432 Maes Parcio Ty'n Ddôl** - trafodwyd uchod.

**2433 Is-bwyllgorau**

1. Grwp Datblygu – yn cyfarfod cyn Nadolig ac yn cynnwys trefnu achlysur cymdeithasol i gyflwyno'r Cynllun; derbyniwyd gwahoddiad i drafod ymhellach gydag Elin Hughes
2. Mynwentydd, yn cynnwys cyfarfod 9/12/22 am 10.30. Mae'r hysbyseb torri gwair yn rhifyn diweddar Pethe Penllyn. Diolchwyd i Alwyn M Roberts am docio'r gwrych blaen. Bydd y gwrych yn cael ei phlygu. Anfonwyd llythyr o ddiolch i Chris Ellis am ei waith gwych yn cynnal a chadw'r mynwentydd ar hyd y blynyddoedd diweddar. Bydd angen llythyr o ddiolch i'r Brodyr Williams am ganiatáu i'r pridd cael ei gludo i gefn maes parcio'r fynwent.
3. Bioamrywiaeth: sgyrsiau ffon wedi eu cynnal i drafod anghenion cyllid.
4. Nadolig: rhoddwyd llongyfarchiadau i'r pwyllgor am y goeden wrth yr Ysgoldy, a diolchwyd yn gynnes i Gwion Alwyn a Geraint Jones am osod a thrimio'r goeden wrth y Gilfach Goffa. Gofynnwyd am gostau ( yn cynnwys TAW) i'w hanfon at y SAC.
5. Asedau: Archwiliad camera wedi ei gwblhau o'r draeniau wrth y Cyfleusterau. Mae nifer o ddiffygion gyda'r cyfrifoldeb yn disgyn ar y Cyngor Cymuned. Bydd y pwyllgor asedau yn cyfarfod i drafod ymhellach. Amcangyfrif y gost tua £2000
6. Cyllid: cyfarfod ar 14/12/22

**2434 Ystyried Materion Ariannol** yn cynnwys derbyniadau ac anfonebau'r mis: cytunwyd i'r taliadau a e-bostiwyd ymlaen llaw gan y SAC.

| | |
|---|---|
| Gwaith trwsio saer - Toiledau | £40.00 |
| Gwaith trwsio - plymwr Toiledau | £50.00 |
| Nwyddau Toiledau | £59.70 |
| Bocs pres newydd ayyb – Toiledau | £60.39 |
| Aelodaeth SLCC – ar y cyd â'r Bala a Llangywer | £48.00 |
| CYTUNDEBAU: | |
| Glanhau | |
| Cyflog + ôl-daliad | |
| Cyflog + Fyn. Ôl-daliad | |
| CThEM | |

**2435 Partneriaeth Penllyn** Derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr; mae'r gwaith Hwb yn mynd ymlaen.

**2436 Un Llais Cymru** Nid oedd adroddiad o'r Pwyllgor Ardal 9/11/22.

**2437 Cynllunio:** Nid oedd ceisiadau.

**2438 Gohebiaeth:**

1. NHS Rhwydwaith Cardaidd- nodwyd derbyn gwybodaeth am restr blaenoriaeth am ofal (*e-bostiwyd)*

2. Llywodraeth Cymru ac Un Llais Cymru : Dyfodol Cymunedau Cymraeg – Ymgynghoriad: Ymateb erbyn 13/1/23 (sylwadau i Un Llais Cymru erbyn 16/12/22) - *e-bostiwyd.* Gofynnwyd i'r grŵp Cynllun Ardal edrych ar hwn.
3. Llywodraeth Cymru: Ymgynghoriad ar y Dreth Gyngor *e-bostiwyd*
4. Un Llais Cymru: Polisi yn erbyn Bwlio ac Aflonyddu mewn Cyngor - *e-bostiwyd*

**2439 Materion lleol y Cynghorwyr:**

1. Arwydd wrth bwmp y Llan (y Cynghorydd Alan Jones Evans) – agenda mis nesaf
2. Ardal y Ciosg, Penantlliw (Huw Pierce Roberts) – nid oes problem ar hyn o bryd.
3. Canmolwyd llinellau ffôn Cymraeg, ond nodwyd y pwysau sydd ar syrjeri'r Bala.

**2440 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 3/1/23 yn y Neuadd Bentref; amser i'w drafod (am 8.00 os oes Cyfarfod Gweddi)

Amser gorffen 9.30pm